10 Rhagfyr 2021

Mae Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd. wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru fel y Prif Gontractwr i gyflawni Cynllun Gwella yr A55 o Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.

Hoffem eich hysbysu am waith hanfodol a fydd yn cael ei gynnal ar ffordd ddeuol **tua'r gorllewin** yr A55 ar nos Fercher, 15 Rhagfyr a nos Iau, 16 Rhagfyr. Bydd y gwaith hwn yn dechrau am 21.30 bob nos ac yn dod i ben am 06.00 y bore canlynol. Efallai y bydd peth aflonyddwch sŵn yn ystod ein gwaith, ond gwneir pob ymdrech i leihau hyn.

Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn yn ddiogel bydd yn hanfodol cau'r ffordd ddeuol tua'r gorllewin, rhwng cyffordd 15 a 11, gan gynnwys y ffyrdd ymadael yng Nghyffordd 14, 13, 12 a 11. Mae'r gwaith hwn yn ddibynnol ar y tywydd a gall unrhyw dywydd garw arwain at ganslo sifftiau ac ychwanegu sifftiau o ganlyniad.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y gwaith hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Mandy Evans

Mandy Evans
Swyddog Cyswllt Cymunedol
Ar gyfer ac ar ran Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd.

03300412185
mandy.evans@alungriffiths.co.uk